

51% o'r holl weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector llaeth



51%

O WEITHGAREDD LLAETH



1,804

O FFERMYDD LLAETH WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO

Rhwydwaith Arddangos

Cynyddu cynnyrch llaeth o borthiant – Nantglas, Talog (Safle arddangos)

Trwy fynd i'r afael â phrinder mwynau mewn pridd ag agwedd ragweithiol mae Iwan Francis wedi gweld bod modd gwella iechyd y pridd, ansawdd y borfa a phroblemau pica. Yn gynnar yn 2020, gwelwyd bod lefelau isel o fagnesiwm yn ffactor penodol oedd yn cyfrannu at broblem gyson gyda pica – cyflwr sy'n achosi i wartheg fwyta llawer iawn o bridd, cerrig a gwrthrychau eraill yn y gwanwyn ac ar ddechrau'r haf. Drwy weithio gyda'r ymgynghorydd glaswelltir Nigel Howells a dadansoddi pridd a phorfa ffres yn gyson, bu modd gwella lefel y maetholion yn y pridd drwy sicrhau bod gwartaith priodol yn cael ei wasgaru i gyd-fynd â'r dadansoddiad.

Dangosodd y dadansoddiad gwreiddiol ym mis Tachwedd 2021 bod lefelau isel iawn o fagnesiwm, ffosffad ac elfennau hybrin eraill.

Cymerwyd samplau o'r borfa ffres ym mis Ebrill 2022 cyn ychwanegu calch magnesiwm ar gyfradd o 2t/erw ym mis Ebrill 2022, ynghyd â slyri a gwartaith ffosffad a photash (P a K).

Sample Details						
Lab Reference:	3121544	Description:	FRESH GRASS	Date Cut:	05/04/2022	
Sample Type:	Fresh Cut - Grass	Cut Number:		Additive:		Sample Received:
						07/04/2022
Dry Matter	Analysis	Very Low	Low	Mean	High	Very High
Dry Matter	(g/kg)	246	100	350	500	650
Macro Minerals	Analysis	Very Low	Low	Mean	High	Very High
Phosphorus	P %	0.24	0.10	0.20	0.40	0.50
Magnesium	Mg %	0.14	0.10	0.25	0.50	0.70
Calcium	Ca %	0.54	0.25	0.35	0.55	0.75
Sodium	Na %	0.57	0.10	0.75	0.25	0.35
Potassium	K %	1.34	0.20	0.40	3.50	4.00
Chloride	Cl %	0.80	0.10	0.20	0.40	0.60
CAB	mg/kg	354	140	280	420	560

Ffigur 1: Ebrill 2022 Dadansoddiad o'r borfa ffres ar gyfer Nantglas.

Dros chwe mis ar ôl ychwanegu'r maetholion cywir oedd eu hangen, cymerwyd rhagor o samplau o'r pridd a'r borfa yn yr un lleiniau ym mis Tachwedd 2022. Dangosodd y rhain fod lefelau magnesiwm wedi cynyddu o fynegai 2 i 3, ffosffad o 1 i 2 a photash o 0 i 1. Dangosodd y dadansoddiad o'r borfa welliant sylweddol hefyd, gyda lefelau uchel o ffosfforws a chynnydd mewn magnesiwm a photasiwm. Felly, ar ôl llwyddo i ganfod y broblem, mae Iwan wedi ei chywiro ac mae eisoes yn gweld canlyniadau buddiol, a fydd ond yn gwella.

Sample Details						
Lab Reference:	3317533	Description:	FARMING CONNECT PROJECT	Date Cut:	19/11/2022	
Sample Type:	Fresh Cut - Grass	Cut Number:		Additive:		Sample Received:
						22/11/2022
Dry Matter	Analysis	Very Low	Low	Mean	High	Very High
Dry Matter	(g/kg)	110	100	350	500	650
Macro Minerals	Analysis	Very Low	Low	Mean	High	Very High
Phosphorus	P %	0.60	0.10	0.20	0.40	0.50
Magnesium	Mg %	0.23	0.10	0.25	0.50	0.70
Calcium	Ca %	0.34	0.25	0.35	0.55	0.75
Sodium	Na %	0.48	0.10	0.75	0.25	0.35
Potassium	K %	3.77	0.20	0.40	3.50	4.00
Chloride	Cl %	1.85	0.10	0.20	0.40	0.60
CAB	mg/kg	450	140	280	420	560

Ffigur 2: Tachwedd 2022 Dadansoddiad o'r borfa ffres ar gyfer Nantglas.

Mae magnesiwm a ffosffad yn gyswllt pwysig yn y ffordd y mae maeth o'r pridd yn symud i fyny drwy'r planhigyn glaswelltir ac i dda byw. Yn Nantglas, caiff slyri ei gludo i dir silwair oddi ar y safle yn hytrach na'i ddefnyddio ar y llwyfan pori, sydd wedi arwain at ddiffyg maetholion yn y llwyfan pori. Mae hyn yn gwaethgu'r mater gyda phroblemau fel pica.

Er bod y mynegeion yn Nantglas yn dal i fod yn isel, maent yn mynd i'r cyfeiriad cywir ac mae Iwan wedi gweld budd sylweddol i ddadansoddi samplau o'r pridd a'r borfa ffres er mwyn deall pa faetholion sy'n cael eu cloi yn y pridd oherwydd lefelau amhriodol o faetholion a gan fod y pridd yn cael ei gwasgu.

Gwerthuso bokashi (eplesu mater organig) – Llwynmendy, Bethlehem (Safle ffocws)

Nod cyffredinol yprosiect oedd gwella lefel maetholion tail buarth ar ffermydd llaeth. Roedd y prosiect yn ymwneud ag eplesu tail o'r sied wartheg sych. Gelwir y broses yn 'bokashi' ('deunydd organig wedi'i eplesu' yn Siapaneg), sef proses sy'n debyg i silweirio cynydu porthiant.

Mae compostio traddodiadol yn broses aerobig sy'n cynhyrchu gwres, sy'n golygu y caiff egni a maetholion gwerthfawr eu colli. Yn ychwanegol at hyn, mae compostio yn allyrru swm sylweddol o garbon. Wrth gompostio deunydd, collir 62% o gyfanswm ei fâs yn sgil anweddu, a 58% o'i ddeunydd organig – y mae 50% ohono'n garbon. Mae hynny'n golygu y byddai 10t o ddeunydd organig yn colli 3t o garbon. O'i gymharu, yn ystod proses bokashi, collir 3% yn unig o'r carbon.

Os rhoddir y micro-organebau byw ar y tail cyn clirio'r sied, gall yr hydoddiant gymysgu'n drylwyr â'r tail wrth ei grafu'n domen. Yna, caiff y domen ei gorchuddio a'i silweirio'n dynn gan ddefnyddio lleni plastig a theiars (tebyg i greu claddfa silwair). Bydd y broses eplesu yn para hyd at wyth wythnos, pan fydd Rheinallt Harris, sy'n ffermio yn Llwynmendy, yn chwalo'r gwartaith ar lain a ddewisir ar hap ar gae gaiff ei bori. Cymerir samplau o'r tail cyn ei grafu allan o'r cwt ac wyth wythnos ar ôl ei drin, a chymerir samplau o domen o dail heb ei drin i gymharu'r maetholion.

Sampl Tail Buarth Safonol

	Dry Matter % DM	Total Nitrogen Kg/t	Total Phosphate Kg/t	Total Potash Kg/t	Total Sulphur Kg/t	Total Magnesium Kg/t
NRM Standard FYM	21.7	5.36	1.97	12.42	2.08	0.81
RB209 (FYM)	25.0	6.0	3.2	9.4	2.4	1.8

Tabl 1: Canlyniadau tail buarth safonol o'u gymharu â ffigurau RB209.

Sampl Tail Buarth wedi'i Brosesu

	Dry Matter % DM	Total Nitrogen Kg/t	Total Phosphate Kg/t	Total Potash Kg/t	Total Sulphur Kg/t	Total Magnesium Kg/t
NRM Processed FYM	20.1	3.9	2.5	7.77	2.17	1.09
RB209 (FYM)	25.0	6.0	3.2	9.4	2.4	1.8

Tabl 2: Tail o'r broses BOKASHI o'i gymharu â ffigurau RB209.

Dangosodd dadansoddiad NRM ar gyfer y ddau sampl, yn gyffredinol, fod lefel y maetholion yn is o'i gymharu â dadansoddiad RB209 safonol.

Roedd gan y sampl tail buarth safonol lefel uwch o botash na'r dadansoddiad RB209 safonol er bod llai o ffosffad. Roedd lefel ffosffad tail buarth wedi'i brosesu yn uwch na'r sampl tail buarth safonol, er bod cyfanswm lefel y nitrogen a'r potash yn is.

Roedd gan y sampl tail buarth wedi'i brosesu lefel cyffredinol is o faetholion o'i gymharu â'r tail buarth safonol. Wrth roi 5t/ha roedd gwerth maethol o £98/ha ar gyfer y tail buarth safonol a £72/ha ar gyfer y sampl tail buarth wedi'i brosesu. Nid dyma'r canlyniad a ddisgwyliid, yn enwedig gyda'r cyfleoedd i wella gwerth maetholion.

Bydd rhoi 5t/ha o dail gwartheg yn darparu lefel sylfaenol o faetholion i'r cnwd glaswelltir. Byddai rhoi cyfradd uwch o dail o fudd i gaeau lle mae silwair neu gnydau gwair yn cael eu tyfu.


Dylid gwneud profion pridd yn rheolaidd bob 4-5 mlynedd, i gael gwybod sut i ddefnyddio gwrteithiau, calch a gwartaith organig yn briodol. Dylid targedu'r priddoedd sydd angen mwy o faetholion. Ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, awgrymir ymestyn y prosiect dros ddwy flynedd i werthuso twf y borfa yn ystod y blynyddoedd canlynol ar ôl rhoi tail buarth Bokashi a hefyd i werthuso'r carbon a gollir mewn tail buarth safonol a thail buarth Bokashi, yn enwedig gyda'r drafodaeth gynyddol ynghylch dal a storio carbon.



Cloffni mewn buchod llaeth

Gyda chloffni yn fater sy'n peri pryder sylweddol o fewn y diwydiant oherwydd ei effeithiau ar les, cynhyrchiad a chanfyddiad y cyhoedd, mae darganfod ffyrdd gwahanol o rannu syniadau ar sut i fynd i'r afael â'r broblem yn hanfodol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae grŵp o 24 o ffermwyr ar draws y de ddwyrain wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect gan EIP Cymru i asesu sut y gall dau ddull newydd o dderbyn cyngor wneud gwahaniaeth ar eu ffermydd.

Dyma rai canlyniadau o'r arolygon ynghylch problem cloffni o fewn y grŵp ffermwr ar ddechrau'r prosiect.



Ffigwr 3: Canlyniadau arolygon problem cloffni.

“Ar hyn o bryd mae'r sgoriau symudedd terfynol yn cael eu casglu, cynlluniau gweithredu'n cael eu hadolygu a chyfarfodydd terfynol yn cael eu cynnal cyn i'r prosiect ddod i ben ym mis Chwefror. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld y canlyniadau terfynol. Mae'r prosiect eisoes wedi tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n ymwneud â rheoli cloffni a hefyd rhai o'r meysydd allweddol sy'n sail i lwyddiant, gan gynnwys dod o hyd i atebion ymarferol, canolbwyntio ar ganfod a thrin gwartheg cloff yn gynnar a sicrhau bod y tîm cyfan yn cael eu cynnwys (ffermwr, milfeddyg a thrimiwr). Cafwyd canlyniadau ardderchog ar ffermydd unigol a'r gobaith yw y gall rhai o'r prif allbynnau o'r prosiect helpu ffermwyr ledled Cymru i wella iechyd carnau eu buchesi,” meddai Sara Pederson, arweinydd y prosiect.

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid

CYNHALIWDYD 31 GWEITHDY
gyda **452** O FNYCHWYR

Enghreifftiau o weithdai a gynhaliwyd:

Ymwrthedd i wrthfotigau	TB Buchol	Rheoli BVD
Rheoli parasitiaid mewn gwartheg	Magu lloi iach a gwneud cymaint o elw â phosibl	Lleihau cloffni mewn buchod godro
Lleihau mastitis mewn buchod godro	Deall clefyd Johne	Iechyd stoc ifanc

Grwpiau Trafod

CYNHALIWDYD 26 CYFARFOD GRŴP TRAFOD
gyda **169** O FNYCHWYR

Astudiaeth Achos

Cynhaliwyd cyfarfod grŵp Llaeth o Borthiant Sir Gaerfyrddin yng Ngholeg Gelli Aur yn ystod mis Tachwedd, er mwyn cyflwyno gwybodaeth am brosiect slyri sy'n cael ei gynnal yn y coleg.

Y siaradwr gwadd ar gyfer y diwrnod oedd rheolwr y prosiect, John Owen, a ddechreuodd drwy sôn ychydig am gefndir y prosiect, gan gynnwys hanes ei sefydlu, y partneriaid dan sylw a sut mae'n cael ei ariannu. Aeth ati wedyn i drafod nod y prosiect a'r manteision posibl i ffermwyr cyn amlinellu'r broses, gan ddarparu gwybodaeth benodol am y peiriannau dan sylw, y system ddyfrhau danddaear a'r gwelyau cyrs.

Yn dilyn hyn, cyflwynodd John wybodaeth am gyfraddau echdynnu'r isod o'r slyri yn dilyn y broses echdynnu:

- Solidau
- Nitrogen
- Gofynion ocsigen cemegol
- Ffosforws
- Potasiwm

Rhoddodd John hefyd wybodaeth am y prosiect 'Tywydd Tywi Weather'. Ap tywydd yw hwn sydd wedi'i ddylunio i helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau wrth eu gwaith, e.e. chwalu tail a gwasgaru gwrtaith, drwy ddata a gesglir o chwe gorsaf dywydd a leolir ar hyd dyffryn Tywi.

I gloi'r cyfarfod, aeth John â'r grŵp ar daith gerdded. Yn gyntaf, aethant i weld yr orsaf dywydd a leolir ar y fferm ac yna aethant ymlaen at y prosiect trin slyri a'r gwelyau cyrs, lle rhoddodd John a'i gydweithwyr wybodaeth fanwl am y broses o'i dechrau i'w diwedd.

Clinigau

CYNHALIWDYD 231 CLINIG gyda **933** O FNYCHWYR

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

Iechyd anifeiliaid	Maeth
Isadeiledd	Priddoedd

Cymorthfeydd

CYNHALIWDYD 72 CYMHORTHFA gyda **401** O FNYCHWYR

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

Llygredd Amaethyddol: Gweithlyfr	Marchnata ac arallgyfeirio
Cynllunio	Cyfreithiol

Roedd busnesau'r sector llaeth yn bresennol yn yr holl gymorthfeydd hyn.

Mentora

12 O FFERMWYR LLAETH NEWYDD WEDI YMUNO Â'R RHAGLEN FENTORA

126 O FFERMWYR LLAETH WEDI DEFNYDDIO MENTOR **16% O'R HOLL RAI SY'N CAEL EU MENTORA YN FFERMWYR LLAETH**

Rhai o'r pynciau diweddar ar gyfer y ffermwyr llaeth sy'n cael eu mentora:

Olyniaeth ar ffermydd	TGCh	Ynni adnewyddadwy
-----------------------	------	-------------------



CYNHALIWYD **40** DIGWYDDIAD LLAETH

gyda **527** O FYNICHWYR



Mae enghreifftiau o weminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

Llygredd Amaethyddol: Gweithdy gweithlyfr



Llygredd Amaethyddol: Mapio risg



Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- NITROGEN AC AMAETHYDDIAETH – BETH YW EIN SEFYLLFA?
- SYSTEMAU CYLCHOL MEWN AMAETHYDDIAETH RHAN 1: CYNALIADWYEDD CYNHYRCHU DA BYW
- GWYMON MEWN AMAETHYDDIAETH

Sioeau



Sioe Laeth Cymru

Roedd Cyswllt Ffermio yn bresennol yn sioe Laeth Cymru ar 25 Hydref, 2022. Fe'i mynychwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, BVD Cymru, Partneriaeth Diogelwch Ffermio Cymru ac AHDB Dairy. Mae Sioe Laeth Cymru yn un o brif ddigwyddiadau'r sector laeth ac yn gyfle i rwydweithio â'r rhai sy'n ymwneud â'r sector. Bu pob aelod o staff Cyswllt Ffermio yn hyrwyddo'r holl wasanaethau sydd ar gael, yn enwedig y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol. Roedd rhannu stondin ar y cyd yn golygu bod siop un stop i ffermwyr laeth gael gwybodaeth am unrhyw brosiectau a gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth sydd ar gael ledled Cymru.

Yn ystod y digwyddiad undydd hwn, manylwyd ar ganlyniadau'r prosiectau o'r rhwydwaith arddangos laeth ar y paneli arddangos ac roedd swyddogion technegol laeth ar gael i'w trafod. Cafodd busnesau newydd a busnesau sydd eisoes wedi'u sefydlu gyfle i siarad â staff Cyswllt Ffermio a gofyn unrhyw gwestiynau oedd ganddyn nhw.

Mae'n fuddiol bod Cyswllt Ffermio yn parhau i fynychu'r digwyddiadau blaenllaw hyn i hyrwyddo gwasanaethau, rhwydweithio â phrosiectau eraill ac i gefnogi'r diwydiant. Mae busnesau nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwyd neu sydd heb gyfeiriad e-bost yn defnyddio'r digwyddiadau hyn fel cyfle gwych i ddysgu a chael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd o fewn y diwydiant. Yn ystod y digwyddiad hwn, y pynciau yr holwyd fwyaf amdanynt oedd:

Manylion y Swyddogion Datblygu Lleol

Gwybodaeth am grantiau sydd i ddod

Cymorth ar gael ar reoliadau Llygredd Amaethyddol

Roedd taflenni ffeithiau a thafleini ar yr uchod ar gael ar y stondin ac fe'u rhannwyd gyda'r ffermwyr.



Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth o dan gategorïau laeth y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Cafodd **196** o fusnesau sydd â laeth yn brif sector i'r busnes fynediad i gyngor trwy'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Categoriâu poblogaidd gyda'r sector laeth oedd:

Glaswelltir



Busnes



Adborth gan fusnesau laeth ar ddarpariaeth y Gwasanaeth Cyngori:

"Fel aelodau eraill yn y grŵp, mae'r gwasanaeth hwn wedi atgyfnerthu fod pobeth sydd wedi eiweithredu ar y fferm nawr yn talu ar ei ganfed o ogwydd amgylcheddol."


"Rydym yn hapus iawn gyda'r gefnogaeth gawson ni gan y cyngorwr. Roedd o'n wybodus iawn ar y pwnc."

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **196** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector laeth.

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ôl categorï:

Cyfanswm:



Cymorth cyntaf yn y gweithle	19
Tryc godi telesgopig ar gyfer tir garw	17
DIY Ffrwythlonni artiffisial	7
Cadw llyfrau	12
Trimio traed gwartheg	11
Dyfarniad Lefel 2 mewn defnyddio plaladdwyr yn ddiogel (PA1) & (PA2)	11
Cyflwyniad i reoli llyngyr a chyfrif wyau ysgarthol	10
Sefnyddio dip defaid yn ddiogel	6
Marchnata eich busnes	6
Cynnal a chadw llif gadwyn a thraws-lifio	6

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

SGORIO CYFLWR CORFF



NEWID YN YR HINSAWDD A DA BYW



CLOFFNI MEWN GWARTHEG



DDIOGELWCH FFERM – GWEITHIO'N DDIOGEL GYDA DA BYW



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.